



Hyfforddiant Histopatholeg yng Nghymru.

Mae Histopatholeg yn cynnwys gwneud diagnosis o glefyd a'i astudio. Fel arfer, mae Histopatholegwyr yn archwilio'r feinwe heintiedig dan ficrosgop i wneud penderfyniadau diagnostig a phrognostig.

Fel arbenigedd clinigol, mae Histopatholeg yn dibynnu ar sgiliau dadansoddi a dehongli gwyth i weithio ar bob achos unigol.

Gan fod cymaint o adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu paratoi yn y swydd, mae cyfathrebu'n sgil arall sydd ei hangen er mwyn llwyddo – yn enwedig gan y bydd gofyn i chi drafod achosion mewn cyfarfodydd amlddisgyblaeth gydag arbenigwyr mewn meysydd eraill.

Croeso i'r Hyfforddiant.

Hyfforddiant Histopatholeg yng Nghymru.

Histopatholeg yng Nghymru

Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn pum bwrdd iechyd, yn y De a'r Gogledd. Fel Histopatholegydd dan hyfforddiant byddwch yn dechrau ar lefel ST1 ac yn gweithio mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf, gan dderbyn cymorth gan feddygon profiadol a manteisio ar ein hopsiynau hyfforddi hyblyg.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf byddwch yn cael cyflwyniad cyffredinol a'r cyfle i fynychu sesiynau addysgu ar y cyd gan Fyrddau Addysg a Hyfforddiant Lleol eraill ledled y DU fel rhan o gwricwlwm strwythuredig. Yna, o'ch ail flwyddyn, byddwch yn dechrau canolbwyntio ar is-arbenigeddau ym maes Patholeg Celloedd.

Mae llawr o Histopatholegwyr dan hyfforddiant yng Nghymru'n dilyn modiwl awtopsi tri mis, sy'n arwain at Dystysgrif mewn Ymarfer Awtopsi Uwch, ac yn aml mae gofyn iddynt gyflwyno eu canfyddiadau mewn llys crwner neu mewn cyfarfodydd am farwolaethau mewn ysbytai.

Prif leoliadau

Yn y De, darperir yr hyfforddiant yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, gyda hyfforddeion yn treulio cyfnodau yn Ysbytai Treforys a Singleton yn Abertawe, Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant ac Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd. Yn y Gogledd, mae'r hyfforddiant wedi'i leoli yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan. Bydd yr ysbytai hyn yn darparu sail gadarn mewn Histopatholeg i chi ac yn rhoi cyfle i chi gael blas ar yr is-arbenigeddau ym maes Patholeg Celloedd.

Hyfforddiant cyffrous sy'n addas i'ch anghenion

Mae Histopatholeg yn galw am waith clinigol a gwaith diagnostig mewn labordy a chadw cysylltiad agos â Phatholegwyr ac arbenigwyr eraill drwy sesiynau amlddisgyblaeth rheolaidd. Mae'r rhaglen yn cynnwys hyfforddiant manwl mewn Histopatholeg, Cytopatholeg, Awtopsi a Phatholeg ynghyd â sylw i feysydd Patholeg Moleciwlau. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dilyn llwybr ymchwil, cewch ein cefnogaeth lwyr i wneud hynny.

Mae ein holl hyfforddiant wedi'i gynllunio i'ch helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy gynnig yr hyblygrwydd rydych ei angen. Ble bynnag rydych chi, byddwch yn profi'r ymdeimlad cryf o gymuned sy'n cysylltu'r genedl ac yn gwneud Cymru'n lle mor braf i hyfforddi, gweithio a byw ynddo.

Hanes llwyddiannus ym maes Histopatholeg

Pan fyddwch yn hyfforddi fel Histopatholegydd yng Nghymru, byddwch yn gwneud hynny mewn gwlad sydd â hanes balch o lwyddo yn y maes. Er enghraifft, mae Cymru'n adnabyddus am ei harbenigedd byd-eang mewn clefyd yr ysgyfaint diwydiannol, Patholeg Gastroberfeddol ac Imiwnohistogemeg; mae Sefydliad Meddygaeth Fforensig Cymru yng Nghaerdydd. Mae'r cyfraddau llwyddo yn yr arholiadau FRCPath yn uwch na chyfartaledd y DU. Mae'r rhaglen Histopatholeg yn cael sgôr dda yn gyson yn yr Arolwg Hyfforddwyr y GMC blynyddol. Mae llawer o hyfforddeion yn aros yng Nghymru i weithio fel meddygon ymgynghorol.